# Pwyllgor Adolygu Gweithredol
## 18 Rhagfyr 2024

**Yn bresennol:** Dr R Plummer (Cadeirydd)
Cynghorydd M Bowen, Cynghorydd T Evans, Cynghorydd C George, Cynghorydd SL Hancock MBE, Mr GA Jones, a'r Cynghorydd C Williams BEM.

**Hefyd yn bresennol**: Clare Flynn (Swyddog Cadwraeth), Georgia Jones (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd), Tegryn Jones (Prif Weithredwr), Sarah Mellor (Arweinydd Tîm Cadwraeth), Sara Morris (Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu), James Parkin (Cyfarwyddwr Adfer Natur a Thwristiaeth), Anthony Rogers (Partneriaeth Natur Sir Benfro), Mair Thomas (Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth) a Michele Webber (Pennaeth Adfer Byd Natur).

[Ymunodd y Cynghorwyr T Evans a C Wiliams â'r cyfarfod adeg ystyried adroddiad 11/24, Amcan Llesiant Archwiliad Dwfn/ Hunanasesiad: Cadwraeth]

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00yb – 12:40yp)

**1. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Mrs S Hoss a'r Cynghorydd M Wiggins.

**2. Datgan buddiannau**

Gwnaeth Dr R Plummer ddatganiad cyffredinol fel Aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ac fel Cadeirydd ei Bwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig. Gwnaeth y Cynghorydd C George ddatganiad o fuddiant mewn perthynas ag adroddiad 13/24, Diweddariad ar Bartneriaeth Natur Sir Benfro.

**3. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Medi 2024 i'w cadarnhau a'u dilysu.

Ar gynnig y Cynghorydd S Hancock, a eiliwyd gan y Cynghorydd M Bowen, **penderfynwyd** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Medi 2024.

**4. Log Gweithredu a Materion yn Codi**

Nododd yr Aelodau gynnwys y log gweithredu.

**Nodwyd.**

**5. Amcan Llesiant: Archwiliad Dwfn / Hunanasesiad: Cadwraeth**

Croesawodd y Cadeirydd y Pennaeth Adfer Byd Natur a gyflwynodd adroddiad ar yr archwiliad dwfn a'r hunanasesiad ar yr amcan llesiant Cadwraeth. Dywedwyd bod yr amcan Cadwraeth yn canolbwyntio ar gyflawni

adfer byd natur a chysylltedd ar raddfa i ddiogelu 30% o dir a moroedd yn y Parc Cenedlaethol er mwyn i natur ffynnu erbyn 2030. Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion y canlyniadau ar gyfer yr amcan, asesiad o’r camau ymlaen, ystadegau perthnasol, astudiaethau achos, yr heriau a’r cyfleoedd, manylion y cyfraniadau at ganlyniadau trawsbynciol, ac asesiad cyffredinol ynghyd â’r camau nesaf.

Canmolodd yr Aelodau y Swyddogion am eu gwaith a chafwyd trafodaeth ynglŷn â chyllid. Nodwyd bod cyllid yn her o ran cyflawni oherwydd natur tymor byr y cyllid a’r ffaith na ellir rhagweld beth fydd y cyllid a'i ffynonellau. Roedd y Swyddog yn pwysleisio'r angen am i'r Awdurdod fod yn glir ar ei flaenoriaethau o ganlyniad i'r her hon. Cafwyd trafodaeth am yr heriau eraill a’r pwyntiau dysgu allweddol i'r tîm.

**Nodwyd.**

## 6. Cysylltu'r Arfordir

Cyflwynodd y Swyddog Cadwraeth adroddiad oedd yn rhoi adolygiad i'r Aelodau o gynllun rheoli tir Cysylltu'r Arfordir, a’r modd yr oedd y cynllun yn galluogi adfer byd natur a chydweithio â thirfeddianwyr ym mharth arfordirol y Parc Cenedlaethol. Dywedwyd bod y prosiect fod dod i ben fis Mawrth 2025, ac felly mai manylion y camau mlaen hyd at fis Tachwedd 2024 oedd yn cael ei gyflwyno. Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth gefndir am y cynllun, manylion y gweithgareddau a gyflawnwyd, ystadegau perthnasol, delweddau oedd yn cyfleu effaith y prosiect, a map yn dangos maint y cynllun.

Canmolodd yr Aelodau y Swyddogion am eu gwaith a thrafodwyd pa mor bwysig yw bod yr Awdurdod yn cydweithio â thirfeddianwyr, a'r angen i gofnodi gwaddol y cynllun yn effeithiol. Roedd yr Aelodau wedi gwneud sylwadau cadarnhaol ar hyblygrwydd y cynllun ac ar y graddau amrywiol o ymyrraeth oedd ar gael i dirfeddianwyr, oedd wedi arwain at fwy o ymgysylltu ac effaith.

**Nodwyd.**

[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 11:14am a 11:24am]

## 7. Diweddariad ar Bartneriaeth Natur Sir Benfro

Cyflwynodd Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth Partneriaeth Natur Sir Benfro adroddiad oedd yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf am weithrediad y Bartneriaeth am flwyddyn ariannol 2023/24. Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth gefndir, ffigurau perthnasol a diweddariad ar y camau ymlaen.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â phwysigrwydd y Bartneriaeth, yr her o ariannu gwaith y tîm, a'r angen am i'r Bartneriaeth gael arian heblaw am grant drwy ddulliau megis buddsoddi corfforaethol. Hefyd trafodwyd lefel yr ymgysylltu â'r cyhoedd, a dywedodd y Swyddog bod angen gwneud rhagor o waith i godi

ymwybyddiaeth o'r Bartneriaeth. Fodd bynnag oherwydd diffyg adnoddau, roedd gweithgarwch ar lwyfannau megis y cyfryngau cymdeithasol yn gyfyngedig.

**Nodwyd.**

[Gadawodd y Cynghorydd C Williams y cyfarfod yr adeg hon o'r cyfarfod.]

**8. Adroddiad Perfformiad ar yr Amcanion Llesiant**

Cyflwynodd y Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth yr Adroddiad Perfformiad ar yr Amcanion Llesiant oedd yn rhoi manylion am y cynnydd a wnaed yn erbyn y dangosyddion/ prosiectau/ rhaglenni gwaith blaenoriaeth am y cyfnod yn diweddu 31 Hydref 2024 ac oedd yn cynnwys ystadegau chwarter 2 ar gyfer rhai mesurau. Roedd yr adroddiad perfformiad yn nodi perfformiad yr Awdurdod yn erbyn ei bedwar Amcan Llesiant (Cadwraeth, Hinsawdd, Cysylltiad a Chymunedau) fel y nodir yng Nghynllun Corfforaethol ac Adnoddau yr Awdurdod 2023/24 – 2026/27.

Nodwyd bod tendr am Asesiad Risg o Lwybr yr Arfordir yn fyw ar Gwerthwch-i-Gymru. Cytunodd y Swyddog i gael y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y tendr gan y tîm perthnasol.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar nifer yr ymwelwyr i bob safle yr Awdurdod. Mewn ymateb i ymholiad gan Aelodau, eglurodd y Cyfarwyddwr Adfer Natur a Thwristiaeth bod y gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr i'w briodoli i ffactorau allanol megis y tywydd. Ychwanegodd bod y safleoedd wedi datblygu eu harlwy i brofiadau diwrnod llawn i wneud iawn am y gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr.

O ran yr hinsawdd, nodwyd bod yr adran Datgarboneiddio yn y broses o recriwtio Swyddog Datgarboneiddio / Cynaliadwyedd, a gofynnodd Aelod am ddiweddariad ar y recriwtio hwn. Cytunodd y Swyddog i gael diweddariad gan y tîm perthnasol a'i ddosbarthu i'r Aelodau.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelodau, cadarnhaodd y Swyddog y byddai'r Polisi a'r Strategaeth Ystadau y cyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad yn cael eu cyflwyno gerbron yr Awdurdod Parc Cenedlaethol i'w hystyried, gyda cham cyn-ymgynghori i'r Aelodau.

Awgrymodd Aelod y dylid cynnwys y gwaith ar Ailddatblygu'r Ystafell Werdd mewn adroddiadau yn y dyfodol. Nodwyd yr awgrym hwn gan y Swyddog a ddywedodd y gallai hyn o bosibl gael ei gynnwys yn yr adran ar Ddatgarboneiddio o'r adroddiad.

**Nodwyd.**

Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o’r Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 12/03/2025 heb eu diwygio.